Atodiad 1

Detholiad o'n 'Canfyddiadau'

Corff perthnasol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyddiad yr Adroddiad: 07/09/2023

Testun: Dyletswydd i gynnal y gyfraith

Cyfeirnod Achos: 202205954

Roedd yr Ombwdsmon wedi cael cwyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod") drwy gymryd rhan a phleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor a fynychodd yn rhithiol, tra'n ymddangos ei fod yn gyrru.

Roedd ymchwiliad yr Ombwdsmon yn ystyried pa un a oedd yr Aelod wedi torri'r Cod drwy ddwyn anfri ar ei swydd neu awdurdod.

Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor, gan gynnwys cofnodion o gyfarfodydd perthnasol y Cyngor a fideos o'r achosion a arweiniodd at y gwyn. Cafwyd gwybodaeth gan yr Aelod a'r Heddlu hefyd.

Roedd y clip fideo o'r cyfarfod cyntaf o'r Cyngor yn dangos bod yr Aelod yn gyrru cerbyd tra'n cyfrannu at y cyfarfod ac roedd yr Aelod yn cydnabod mai dyma oedd yr achos. Roedd yr Aelod yn meddwl ei bod yn bwysig ei fod yn mynychu pob cyfarfod. Roedd fideos dilynol yn dangos bod y car naill ai'n llonydd neu bod yr Aelod yn y sedd teithiwr.

Dywedodd yr Heddlu nad oeddent wedi derbyn cwyn ac na fyddai nawr o fudd i'r cyhoedd i ymchwilio'r mater. Nid rôl yr Ombwdsmon yw penderfynu a fyddai camau'r Aelod wedi arwain at ymddygiad troseddol. Fodd bynnag, nid yw penderfyniad yr Heddlu yn golygu bod camau'r Aelod wedi eu hystyried yn dderbyniol.

Roedd yr Ombwdsmon wedi canfod bod camau'r Aelod yn awgrymu torri rheolau'r Cod. Mae'r cyhoedd yn disgwyl i aelodau etholedig gyfrannu'n llawn at fusnes y Cyngor ac mae mynychu cyfarfod tra'n gyrru yn dangos penderfyniad gwael ac roedd yna bosibilrwydd y byddai wedi dwyn anfri ar y Cyngor.

Roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried bod yna dystiolaeth o un digwyddiad ble roedd yr Aelod yn gyrru ac yn rhyngweithio gyda'r cyfarfod, ac nad oedd yn ymddangos ei fod wedi ailadrodd yr ymddygiad. Bod fideos dilynol yn dangos yr Aelod yn y sedd teithiwr neu

mewn cerbyd llonydd yn awgrymu nad oedd yr Aelod wedi ailadrodd yr ymddygiad a'i fod wedi dysgu o'r gwyn hon.

Roedd yr Ombwdsmon wedi canfod er bod camau'r Aelod yn awgrymu torri'r Cod, nad oedd wedi ailadrodd yr ymddygiad wedyn ac roedd diffyg ymchwiliad troseddol yn golygu na fyddai er lles y cyhoedd i gymryd camau pellach.

Roedd yr Ombwdsmon wedi canfod o dan Adran 69(4)(b) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 nad oedd angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion a ymchwiliwyd.

Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gadw ar gofnod ac yn cael ei gymryd i ystyriaeth os bydd unrhyw ymddygiad tebyg gan yr Aelod yn y dyfodol.